Local Development Plan 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2026

# Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

## Canllawiau Drafft ar Reoli Lleoliad Siopau Tecawê Bwyd Poeth




www.cdllcaerdydd.co.uk

02920 872088

CDLl@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021 i 2036
# Canllawiau Drafft ar Reoli Lleoliad Siopau Tecawê Bwyd Poeth
# Mai 2026

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Caerdydd 2021–2036 drwy esbonio sut y bwriedir cymhwyso Polisi Strategol SP13 Sicrhau Gwytnwch Iechyd a Lles a Pholisïau Manwl HF1 ac R8 yn ymarferol, gan dynnu ar sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr o iechyd cyhoeddus a chreu lleoedd.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn y papur hwn yn dangos bod y brif her iechyd cyhoeddus a chreu lleoedd sy'n gysylltiedig â siopau tecawê bwyd poeth yng Nghaerdydd yn deillio o'u crynodiad cronnus a'u clystyru, yn enwedig o fewn canolfannau ardal a lleol sy'n gwasanaethu cymunedau â mwy o amddifadedd. Mae dadansoddiad yn dangos cysylltiad clir rhwng amddifadedd, canlyniadau iechyd gwael a dwysedd uwch o siopau tecawê bwyd poeth, ochr yn ochr ag effeithiau ar gymeriad y ganolfan, amwynder preswyl a chydbwysedd a swyddogaeth defnyddiau mewn canolfannau manwerthu.

Er y gall parthau gwahardd ger ysgolion fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag amlygiad penodol, lleol, mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw mesurau o'r fath yn mynd i'r afael â'r amgylchedd bwyd bob dydd ehangach na'r effeithiau cronnus sy'n deillio o grynodiadau uchel o siopau tecawê bwyd poeth ar draws cymdogaethau. Yng Nghaerdydd, mae'r mater allweddol yn ymwneud â dosbarthiad anghyfartal a gor-gynrychiolaeth siopau tecawê bwyd poeth mewn canolfannau penodol, sy'n chwarae rhan bwysig mewn mynediad dyddiol at fwyd, gwasanaethau a chyflogaeth.

Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod dull sy’n seiliedig ar gyfrannau sy'n rheoli nifer, agosrwydd a chlystyru siopau tecawê bwyd poeth yn ffordd briodol a chymesur o gymhwyso polisi cynllunio mabwysiedig. Trwy reoli gor-grynodiad yn hytrach na chymhwyso cyfyngiadau cyffredinol ar ddefnyddiau siopau tecawê bwyd poeth, mae'r dull hwn yn adlewyrchu arferion cynllunio sefydledig, yn galluogi penderfyniadau cyson a thryloyw, ac yn caniatáu i gynigion gael eu hasesu'n hyblyg yn ôl eu rhinweddau unigol.

Mae'r canllawiau yn cefnogi cymhwyso Polisi HF1 drwy wrthsefyll gor-grynodiad a chyfrannu at amgylchedd manwerthu bwyd sy'n gwella mynediad at ddewisiadau iachach ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae hefyd yn cefnogi Polisi R8 drwy ddiogelu bywiogrwydd, hyfywedd, cymeriad ac amwynder canolfannau manwerthu Caerdydd, gan sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol.

## 1.0 DIBEN

Mae'r canllawiau hyn ar *Reoli Lleoliad Siopau Tecawê Bwyd Poeth* yn darparu cyd-destun polisi, tystiolaeth gefndir a data sy'n cefnogi Polisi Strategol SP13 Iechyd a Lles a Pholisïau Manwl HF1 ac R8, Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Caerdydd 2021-2036 (Cyngor Caerdydd, 2025a).

Mewn cyd-destun polisi cynllunio, diffinnir siopau tecawê bwyd poeth fel siopau sydd â'r prif bwrpas o werthu bwyd sy'n cael ei fwyta oddi ar y safle.

Mae Polisi Strategol SP13 'Sicrhau Gwytnwch Iechyd a Lles' y CDLIN (Cyngor Caerdydd, 2025a) yn nodi:

> 'Bydd y CDLl yn ceisio hyrwyddo buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a lleihau anghydraddoldebau iechyd a lles drwy greu amgylcheddau hygyrch ac iach.'

Mae'r Polisi Manwl HF1 (diwygiedig) yn cynnwys y geiriau:

> t'(iv) Darparu amgylchedd tyfu bwyd a manwerthu bwyd sy'n gwella mynediad at ddewisiadau bwyd iach ac yn lleihau anghydraddoldebau trwy wrthsefyll cynigion ar gyfer siopau tecawê bwyd poeth ychwanegol lle byddai eu nifer neu eu hagosrwydd yn arwain at or-grynodiad ac yn tanseilio creu amgylchedd bwyd iach a chytbwys.

Ac mae'r Polisi Manwl R8 yn cynnwys y geiriau:

> '7.199 ………Mae Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae, a'r Canolfannau Ardal yn fwy tebygol o allu derbyn defnyddiau A3 heb achosi niwed annerbyniol, yn sgil eu maint a'u cymeriad. Fodd bynnag, gall dwyseddau uchel o ddefnyddiau o'r fath mewn canolfannau fod yn andwyol, naill ai i amwynder preswyl yn y ganolfan neu yn agos iddi, neu i rôl siopa a chymeriad pennaf y ganolfan a'i bywiogrwydd, ei hatyniad a'i hyfywedd' a;
>
> '7.203 Y tu allan i'r Canolfannau Ardal a Lleol ac Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae mae'n annhebygol y bydd cynigion ar gyfer defnydd A3 yn dderbyniol mewn ardaloedd preswyl neu gerllaw iddynt, oherwydd eu heffaith ar amwynder preswyl a'r potensial i achosi niwsans o ran sŵn ac arogl.'

Cydnabyddir bod lefelau cynyddol o ordewdra yn y DU yn fater iechyd y cyhoedd mawr, ac er ei fod yn fater cymhleth sy'n gofyn am ymagwedd system gyfan i fynd i'r afael â hi, mae'r system gynllunio yn chwarae rhan allweddol yn yr amgylchedd bwyd. Amledd y siopau tecawê bwyd poeth sy'n gwerthu bwydydd â lefel uchel o fraster, halen a siwgr uchel yw un o lawer o ffactorau sy'n cyfrannu at ddeietau gwael a lefelau gordewdra. Mae mynd i'r afael â'r amledd hwn yn rhan o ddull cyffredinol Caerdydd o leihau anghydraddoldebau iechyd ac o fod yn bartner gweithredol wrth reoli a lleihau effaith gordewdra drwy bolisïau cynllunio.

Dylid darllen y papur hwn ar y cyd â Phapur Technegol Cefndir Rhif 5 Iechyd a Lles Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd (2021-2036) o fis Ionawr 2025 (Cyngor Caerdydd, 2025b). Mae'r papur hwn yn cynnwys:

- Y sylfaen dystiolaeth genedlaethol sy'n ymwneud â siopau tecawê bwyd poeth;
- Y cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol mewn cysylltiad ag iechyd a lles, siopau tecawê bwyd poeth a'u heffaith;
- Y sylfaen dystiolaeth leol mewn cysylltiad â lefelau gordewdra, meysydd amddifadedd a nifer, lleoliad a dwysedd siopau tecawê bwyd poeth;
- Canllawiau ac argymhellion gweithredu.

## 2.0 SYLFAEN DYSTIOLAETH GENEDLAETHOL

Mae iechyd yn *'gyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid dim ond absenoldeb afiechyd neu eiddilwch'* (Sefydliad Iechyd y Byd, d.d.).

Mae cynllunio gofodol yn gysylltiedig yn annatod ag iechyd a lles (Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd, 2011) (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017) ac wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd[1] trwy ddylanwadu a llunio amgylcheddau trefol a gwledig.

Mae'r amgylchedd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddo, gan gynnwys mynediad at fannau tyfu bwyd a lleoliadau manwerthu bwyd iach, yn effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar ein hiechyd a'n lles (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017) (Llywodraeth Cymru, 2020). Tynnodd cyhoeddiadau allweddol yn y DU, gan gynnwys yr Adroddiad Foresight (Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth, 2007) a'r Adolygiad Marmot (Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd, 2011), sylw at bwysau yn cael ei ddylanwadu gan gyfres eang o ffactorau, y tu hwnt i bwyslais ar ddewis personol, a oedd yn cynnwys yr amgylchedd lleol a'r cyd-destun cymdeithasol.

Mae siopau tecawê bwyd poeth yn rhan o'r amgylchedd adeiledig sy'n effeithio ar iechyd a lles trwy'r opsiynau maen nhw'n eu darparu. Mae prydau a brynir y tu allan i'r cartref yn gysylltiedig â chalorïau uwch, gan fod tuedd iddyn nhw fod yn ddognau mwy o faint ac maent yn ffynhonnell gyflym a chyfleus o brydau poeth (Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau, 2025) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025a) sy'n cyfrannu risg uwch o ddatblygu cyflyrau iechyd fel gordewdra, diabetes math 2 a chlefyd cardiofasgwlaidd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025a). Mae tystiolaeth yn dangos bod mwy o fynediad at siopau manwerthu bwyd afiach yn cyfrannu at statws pwysau uwch ar draws y boblogaeth gyffredinol ac mae plant mewn ardaloedd incwm isel yn profi cyfraddau uwch o ordewdra ac ymddygiadau bwyta afiach (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017). Gall y ffactorau hyn ei gwneud hi'n anodd i bobl gynnal deiet iach.

Mae'r defnydd o siopau tecawê bwyd poeth wedi parhau i fod yn uchel ar ôl cynyddu 50% yn ystod pandemig Covid (Sefydliad Astudiaethau Ariannol, 2024). Canfuwyd bod o leiaf 25% o galorïau yn cael eu bwyta y tu allan i'r cartref bellach a bod chwech o bob deg o bobl yn y DU yn archebu tecawê o leiaf unwaith yr wythnos (Nesta, 2024).

Crynhodd a thynnodd sylw adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2025 (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025a) at y canlynol:

- mae crynodiadau uwch o siopau tecawê bwyd poeth yn bresennol mewn ardaloedd o amddifadedd uwch;
- mae tuedd i blant sy'n treulio amser mewn cymdogaethau ag amddifadedd fwyta mwy o fwyd o siopau tecawê ac yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew;
- dangoswyd y cysylltiad rhwng agosrwydd at siopau tecawê bwyd poeth a lefelau uwch o ordewdra;
- gall crynodiad neu glystyru siopau tecawê mewn canolfannau ddominyddu'r amgylchedd manwerthu, gan gyfyngu ar nifer yr unedau sydd ar gael ar gyfer opsiynau bwyd iachach

[1] Anghydraddoldebau iechyd yw'r gwahaniaethau annheg ac y gellir eu hosgoi mewn statws iechyd a welir o fewn a rhwng gwledydd. Mae graddiant cymdeithasol rhwng iechyd a salwch: po isaf yw'r safle economaidd-gymdeithasol, y gwaethaf yw'r iechyd. Hefyd, gwelir statws iechyd tlotach yn gyffredinol mewn cymunedau â mwy o amddifadedd uwch (Marmot M A.J. 2020)

ac yn arwain at or-amlygiad o ddefnyddiau tecawê a allai ddylanwadu ar ymddygiad;
- yn aml, mae siopau tecawê bwyd poeth yn cael eu cydleoli â defnyddiau tir eraill a allai fod yn llai iach, megis siopau betio, bariau shisha ac argaeledd alcohol; gall y ffactorau hyn ddylanwadu ar iechyd cymunedau lleol ac ychwanegu at anghydraddoldebau iechyd mewn meysydd o amddifadedd.

### 2.1 Cynllunio a Siopau Tecawê Bwyd Poeth

Mae amgylchedd bwyd cymdogaeth yn benderfynydd pwysig addasadwy o ymddygiad deietegol a gordewdra. Mae'r system gynllunio yn un lifer sydd ar gael i awdurdodau lleol wrth alluogi amgylchedd pwysau iachach ac mae wedi ei chydnabod ers cryn amser yn ymyrraeth gynllunio gyfiawn gan y proffesiwn iechyd cyhoeddus a meddygol (al, 2024). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025a) wedi cynhyrchu canllawiau sy'n argymell y dylid osgoi gor-grynodiad a dwysedd uchel o siopau tecawê bwyd poeth mewn canol trefi neu strydoedd mawr, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd.

Mae Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru Pwysau Iach: Cymru Iach 2025-2027 (Llywodraeth Cymru, 2025a) yn cydnabod rôl cynllunio drwy ei gynigion i gefnogi newid yn y cydbwysedd o siopau bwyd mewn cymunedau lleol, gan gynnwys:
- creu parthau gwahardd ger lleoedd y mae plant a theuluoedd yn eu mynychu, megis ysgolion, parciau a chanolfannau hamdden;
- parthau gwahardd ar sail pellter neu amser cerdded neu gyfyngu oriau agor siopau bwyd tecawê yn ystod amseroedd cinio ysgol, ac yn syth ar ôl ysgol.

Yn ogystal, mae Canllawiau Ymarfer Cynllunio Llywodraeth y DU ar gyfer Cymunedau Iach a Diogel Paragraff 004 (Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2022) yn datgan:

> 'Planning policies and supplementary planning documents can, where justed, seek to limit the proliferation of particular uses where evidence shows this is appropriate (and where such uses require planning permission)'.

Yng Nghymru, ymysg awdurdodau lleol a sefydliadau partner, mae diddordeb cynyddol mewn dadansoddi dosbarthiad gofodol siopau tecawê bwyd poeth ar draws eu cymunedau, gan dystio'r effaith y maent yn ei chael ar lefelau gordewdra ac mewn gweithredu polisïau siopau tecawê bwyd poeth. Yn Lloegr, diweddarwyd y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) (Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2025) yn 2024 ac mae'n glir y gellir cyfyngu ar siopau tecawê bwyd poeth drwy'r system gynllunio. Mae nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi datblygu papurau a pholisïau siopau tecawê bwyd poeth (darperir enghreifftiau yn Atodiad 1).

## 3.0 Y CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL

- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), 2014)*:*
  Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith polisi sy'n rhychwantu'r llywodraeth sy'n canolbwyntio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac yn deddfu ar

ymagwedd *'Iechyd ym mhob polisi'* trwy wneud *'Cymru Iachach'* yn nod polisi gofynnol ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r nod polisi hwn yn cynnwys adran o'r enw 'Creu lleoedd a mewn-ddylunio iechyd a llesiant cymunedol' ac isadran 'Galluogi lleoedd i gefnogi iechyd a llesiant pobl a chymunedau' (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), 2014). Mae dangosyddion llesiant sy'n rhan o'r fframwaith ar gyfer y nod hwn yn cynnwys disgwyliad oes iach, ffordd iach o fyw i blant ac oedolion a boddhad pobl am eu mynediad at gyfleusterau lleol a ble maent yn byw. Mae amgylchedd bwyd iach yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant hyn.

- *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol (2040)* (Llywodraeth Cymru, 2019)*:*
  Mae'r cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith a thwf newydd ac yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys gwella iechyd a llesiant cymunedau. Mae'n cynnwys y canlyniadau canlynol:
  - Cymru lle mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn mannau cysylltiedig, cynhwysol ac iach
  - Cymru lle mae pobl yn byw mewn rhanbarthau arbennig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy.

- *Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 12* (Llywodraeth Cymru, 2024):
  Mae PCC yn cydnabod rôl system gynllunio wrth greu lleoedd cynaliadwy sy'n atyniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Mae pwyslais ar hyrwyddo lleoedd iachach ac mae'n cynnwys pum Canlyniad Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, ac mae un o'r rhain yn canolbwyntio ar hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.

- *Deddf Cydraddoldeb y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2010* (Llywodraeth Cymru, 2022):
  Daeth y Ddeddf i rym ar 31 Mawrth 2021 yng Nghymru ac mae'n rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol i roi sylw dyledus, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017):
  Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â nifer o bryderon iechyd y cyhoedd penodol a chyfredol, a chreu amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i iechyd da a lle gellir atal niwed dianghenraid. Roedd y Ddeddf yn cynnwys y gofyniad i gynhyrchu strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra (Llywodraeth Cymru, 2023a) a deddfwriaeth i orfodi cyrff cyhoeddus i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEIau) mewn amgylchiadau penodol. Mae'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2024) wedi eu cynnwys o dan y Ddeddf.

- *Pwysau Iach: Cymru Iach 2023* (Llywodraeth Cymru, 2023a):
  Mae'r strategaeth genedlaethol hon yn nodi dull hirdymor o gefnogi pobl i gyflawni a chynnal pwysau iach. Mae'n cydnabod bod gorbwysau a gordewdra wedi'u siapio gan gymysgedd cymhleth o ffactorau a'i nod yw creu amgylcheddau iachach drwy ddeddfwriaeth, rheoleiddio, cyllid a rhaglenni adeiladu. O ran siopau tecawê bwyd poeth, mae gan y strategaeth uchelgais i weithio tuag at osod cyfyngiadau ar sefydlu siopau tecawê bwyd poeth ger ysgolion a chymunedau. Bydd newid cydbwysedd yr amgylchedd bwyd yn lleihau bwyta

bwyd gyda swm sylweddol o fraster dirlawn, halen a siwgr ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n gwneud y dewis i brynu opsiynau bwyd iachach.

- *Rheoliadau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025* (Llywodraeth Cymru, 2025b):
  Cymeradwywyd y Rheoliadau gan y Senedd ym mis Tachwedd 2025 a byddant yn dod i rym ym mis Ebrill 2027. Mae'r Rheoliadau yn cyflwyno dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodedig i ymgymryd ag AEIau wrth gynnig penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau.

- Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2025c):
  Mae Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru yn ceisio gwella cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol a chynyddu mynediad at fwyd iach a chynaliadwy gan greu system bwyd cymunedol gryfach a mwy gwydn.

- Cymru Can: Strategaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2023-2030 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2023):
  Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut i gyflymu'r broses o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r strategaeth yn gosod pum cenhadaeth i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n effeithiol; mae Cenhadaeth 3 yn canolbwyntio ar helpu cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd ar achosion sylfaenol salwch, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chadw pobl yn iach trwy atal.

## 4.0 Y CYD-DESTUN POLISI LLEOL

- Cynllun Lles Caerdydd 2023-2028 (Partneriaeth Caerdydd, 2023):
  Mae'r cynllun yn ofyniad a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wasanaethau cyhoeddus gydweithio drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant pob ardal Awdurdod Lleol ac i gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae Cynllun Lles Caerdydd yn canolbwyntio ar wella iechyd a lles, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a mabwysiadu dull systemau cyfan o atal.

- Cyflawni Caerdydd Cryfach, Tecach, Gwyrddach. Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2026-29 (Cyngor Caerdydd, 2026):
  Mae'r Cynllun Corfforaethol yn bwrw ymlaen â'r Strategaeth Cryfach Tecach Gwyrddach ac yn nodi rôl Cyngor Caerdydd wrth gyfrannu at gyflawni Amcanion Lles Caerdydd, sy'n ofyniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cynllun hefyd yn gweithredu fel Datganiad Lles y Cyngor. Mae'r Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i leihau anghydraddoldebau, hyrwyddo iechyd, a chefnogi mynediad at fwyd iach, lleol a charbon isel.

- Caerdydd Un Blaned a Chynllun Gweithredu Caerdydd Un Blaned 2021 (Cyngor Caerdydd, d.d. (a)):
  Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn bwrw ymlaen ag ymateb strategol Cyngor Caerdydd i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng hinsawdd ac yn nodi ymagwedd y sefydliad ar y mater hyd at 2030. Yn gynwysedig mae datblygu a

gweithredu Strategaeth Fwyd bartneriaeth a fydd yn hyrwyddo bwyd iach, lleol a charbon isel.

- Fframwaith Bwyd Da a Symudiad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, 2024):
  Mae'r Fframwaith hwn yn darparu dull lleol o greu amgylcheddau iachach ledled Caerdydd a'r Fro. Mae'n cyd-fynd yn agos â SP13 a HF1 trwy alluogi mynediad at fwyd iachach a chyfleoedd ar gyfer symud bob dydd. Mae'r Fframwaith yn cefnogi'r defnydd o liferi cynllunio, megis rheoli dwysedd siopau tecawê bwyd poeth, i helpu i newid amgylcheddau tuag at iechyd a lles.

- Caerdydd sy'n Dda i Blant (Cyngor Caerdydd, 2018):
  Mae'r strategaeth a'r dull gweithredu yn dangos ymrwymiad Caerdydd i gymryd rhan ym menter UNICEF yn y DU Dinasoedd sy'n Dda i Blant Cenedlaethol ac i anelu at fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant lle mae gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle cyfartal i ffynnu a chyrraedd eu potensial. Mae'r dull yn nodi bod plant a phobl ifanc sy'n byw yn y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau iechyd gwael, gan gynnwys risg uwch o fyw â gordewdra. Mae'n cydnabod rôl yr amgylchedd wrth gefnogi iechyd a lles ac wrth leihau anghydraddoldebau iechyd.

- Strategaeth Bwyd Da Cyngor Caerdydd (Cyngor Caerdydd, d.d. (b)):
  Mae'r strategaeth yn dangos ymrwymiad Caerdydd i weithredu i ddod yn fwy o ddinas bwyd cynaliadwy, gan gynnwys pwyslais ar fynediad at fwyd da ym mhob ardal o'r ddinas ac ar draws pob demograffeg, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd ag amddifadedd a thrigolion agored i niwed. Mae'n cydnabod yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy gymryd camau ar ddirlawnder siopau bwyd cyflym a chyfyngiadau cynllunio ar siopau bwyd cyflym. Mae'r strategaeth hon yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd.

- Strategaeth Bwyd Da Caerdydd 2021-2024 (Bwyd Caerdydd, 2021):
  Nod y strategaeth yw cefnogi Caerdydd i ddod yn un o'r Lleoedd Bwyd Cynaliadwy gorau yn y DU. Mae'r nodau allweddol yn cynnwys:
  - Caerdydd Iach
  - Caerdydd Amgylcheddol Gynaliadwy
  - Mudiad bwyd grymusol
  - Economi fwyd leol ffyniannus
  - System fwyd teg a chysylltiedig.


## 5.0 DANGOSYDDION IECHYD DEMOGRAFFEG A PHOBLOGAETH ALLWEDDOL AR GYFER CAERDYDD

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai dangosyddion demograffeg ac iechyd poblogaeth allweddol ar gyfer Caerdydd

### 5.1 Anghydraddoldebau

Mae anghydraddoldebau amddifadedd mawr i'w cael o fewn y ddinas o ran tai, yr amgylchedd ffisegol, cyflogaeth, incwm, cyflawniadau addysgol ac iechyd wedi'u canoli yn

gyffredinol yn yr 'arc ddeheuol' (Ffigur 1). Mae’r bwlch disgwyliad oes rhwng ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf a lleiaf wedi bod yn cynyddu.




**Ffigur 1:** Map o'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) wedi'i gysgodi yn ôl grŵp amddifadedd, MALIC 2025 (Llywodraeth Cymru, 2025d).
**Ffynhonnell:** Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio MALIC 2025 (Llywodraeth Cymru, 2025d). Yn cynnwys data y SY.


### 5.2 Anghydraddoldebau iechyd

Anghydraddoldebau iechyd yw'r gwahaniaethau annheg a dianghenraid o ran statws iechyd a welir o fewn a rhwng cymunedau. Mae graddiant cymdeithasol rhwng iechyd a salwch: po isaf yw'r safle economaidd-gymdeithasol, y gwaethaf yw'r iechyd. Hefyd, gwelir statws iechyd tlotach yn gyffredinol mewn cymunedau â’r amddifadedd mwyaf (Marmot M A. J., 2020).

Mae Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran cyfran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) yn y 10% o ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru; mae 3 o’r ACEHIau yng Nghaerdydd ymhlith y 10% â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2025e) Mae lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn uchel (Partneriaeth Caerdydd, 2023), ond tynnodd canlyniadau **maes iechyd**[2] Adroddiad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) (Llywodraeth Cymru, 2025d) sylw at y ffaith bod Caerdydd yn parhau i fod â 34 o ardaloedd (16%) yn y 10% o ardaloedd bach ledled Cymru â’r amddifadedd mwyaf o ran dangosyddion iechyd (Ffigur 2). Mae'r patrymau cyffredinol o amddifadedd iechyd yn MALIC 2025 yn eithaf tebyg i'r rhai ar gyfer MALIC 2019 (Llywodraeth Cymru, 2025d).

Mae anghydraddoldebau iechyd clir ledled y ddinas, gyda wardiau yn yr 'Arc Ddeheuol' â mwy o amddifadedd o ran iechyd yn gyffredinol (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 2022). Mae'r 'Arc Ddeheuol' yn ardal â phoblogaeth o tua 155,000 o bobl yn cynnwys yr adrannau etholiadol canlynol: Adamsdown, Butetown, Caerau, Treganna, Trelái, Grangetown, Llanrhymni, Glan-yr-afon, Tredelerch, Y Sblot, a Trowbridge (Partneriaeth Caerdydd, 2023). Mae Ffigur 2 (Llywodraeth Cymru, 2025d) yn dangos yr ardaloedd yng Nghaerdydd sy'n dioddef yr iechyd gwaelaf.

[2] Mae maes **iechyd** y MALIC yn cynnwys 7 dangosydd – salwch cyfyngus hirdymor, marwolaethau cynamserol, cyflyrau cronig a gofnodwyd gan feddygon teulu, cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu, nifer yr achosion o ganser, plant 4 i 5 oed sy'n byw â gordewdra a phwysau geni isel (Llywodraeth Cymru, 2025e)





**Ffigur 2:** Map o'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) wedi'i gysgodi yn ôl grŵp amddifadedd **iechyd**, MALIC 2025 (Llywodraeth Cymru, 2025d).
Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025. Cartograffeg. Llywodraeth Cymru.
**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru 2025. Adroddiad Canlyniadau MALIC. Canlyniadau Adran Iechyd

### 5.3 Anghydraddoldebau amgylcheddol

Mae anghydraddoldebau amgylcheddol (Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd, 2011) yn effeithio ar iechyd a lles ac yn gorfodi anghydraddoldebau iechyd. Mae graddiant o ran dosbarthiad anfanteision amgylcheddol gyda'r rhai sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf â'r amddifadedd mwyaf yn fwy agored i amodau amgylcheddol sy'n effeithio'n negyddol ar iechyd, er enghraifft, llygredd aer, lleithder a thai wedi'u hinswleiddio'n wael, sy'n byw ger priffyrdd, a diffyg mannau gwyrdd. Yn ogystal, mae'r strydoedd mawr lleiaf iach yn debygol o gael eu lleoli mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd gyda'r nifer uchaf o siopau bwyd cyflym, siopau betio, mwy o sbwriel a baeddu, llygredd sŵn ac aer, siopau manwerthu afiach, trosedd ac ofn troseddau a damweiniau traffig ar y ffyrdd (Marmot M A.J., 2020).

Mae Ffigur 3 (Llywodraeth Cymru, 2025f) yn dangos bod anghydraddoldebau clir o ran yr **amgylchedd ffisegol**[3] ar draws Caerdydd, gyda wardiau yn yr 'Arc Ddeheuol' yn profi'r anfantais amgylcheddol fwyaf. Yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf o ran yr amgylchedd ffisegol yw'r rhai sydd â lefelau uchel o lygredd aer, llai o fynediad i fannau gwyrdd, yn fwy agored i lygredd sŵn ac sydd wedi eu lleoli mewn ardal perygl llifogydd.

[3] Mae maes **amgylchedd ffisegol** y MALIC yn cynnwys pedwar is-faes – ansawdd aer, perygl llifogydd, llygredd sŵn a mannau gwyrdd (Llywodraeth Cymru, 2025e)




**Ffigur 3:** Map o ACEHIau wedi'i gysgodi yn ôl grŵp amddifadedd **amgylchedd ffisegol**, MALIC 2025 (Llywodraeth Cymru, 2025f).
Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025. Cartograffeg. Llywodraeth Cymru
**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru 2025. Adroddiad Canlyniadau MALIC. Canlyniadau Maes Amgylchedd Ffisegol

Mae canlyniadau maes amgylchedd ffisegol MALIC 2025 (Llywodraeth Cymru, 2025f) yn dangos mai'r awdurdod lleol â’r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% o ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru oedd Caerdydd (39%) ac yna Casnewydd (28%). Caerdydd a Chasnewydd hefyd oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% o ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru, sef 94% ac 89% yn y drefn honno.

## 5.4 Gordewdra

Yng Nghymru yn 2021-22 (StatsCymru, d.d.), roedd 62% o oedolion yn byw â gorbwysau neu ordewdra, gan gynnwys 25% yn byw â gordewdra. Yng Nghaerdydd, roedd 57% o oedolion yn byw â gorbwysau neu ordewdra, gan gynnwys 20% yn byw â gordewdra, gyda rhai cymunedau yn profi lefelau llawer uwch; mae rhai amcangyfrifon yn dangos bod gordewdra oedolion yn gysylltiedig ag amddifadedd gyda lefelau yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd bron i ddwbl y lefelau yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Yn 2022/23, roedd gan lai na hanner (46.6%) yr oedolion hŷn (65+ oed) yng Nghaerdydd bwysau iach (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 2025).

Ymhlith plant (Ymchwil y Senedd, 2024), mae bron i un o bob tri phlentyn ledled Cymru dros bwysau neu'n ordew erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol gynradd; yng Nghaerdydd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 2025), mae dros un rhan o bump o blant (4 neu 5 oed) dros bwysau neu'n ordew. Mae hefyd gwahaniaeth o 8.4 pwynt canran wrth gymharu cymunedau Caerdydd â'r amddifadedd mwyaf/lleiaf (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 2025).

Mae plant sy'n byw â gordewdra yn fwy tebygol o brofi canlyniadau iechyd gwael,

gan gynnwys mwy o salwch, absenoldeb ysgol, cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac apwyntiadau amlach â meddygon teulu o'u cymharu â phlant o bwysau iach (Wijga AH, 2010). Maent hefyd yn fwy tebygol o barhau i fyw â gordewdra pan fyddant yn oedolion, gan wneud ymyrraeth gynnar yn hanfodol (Simmonds, 2015).

Mae byw â gorbwysau neu ordewdra (Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019) yn cynyddu'n sylweddol y risg o ddatblygu clefydau cronig gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, canserau, diabetes, dementia, afiechydon cyhyrysgerbydol a chlefyd anadlol cronig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ystod o ffactorau yn dylanwadu ar fyw â gorbwysau neu ordewdra, gan gynnwys systemau ac amgylcheddau obesogenig, patrymau bwyta ac yfed, anweithgaredd corfforol, cyflyrau meddygol ac amrywiadau genetig. Mae amgylchedd obesogenig yn cyfyngu ar yr opsiynau bwyd cynaliadwy iach sydd ar gael am brisiau fforddiadwy lleol, yn cyfyngu ar fynediad i gyfleusterau, gwasanaethau a siopau trwy gerdded, beicio neu olwyno a thrafnidiaeth gyhoeddus ac yn lleihau cysylltedd cymdeithasol rhwng ac o fewn cymunedau (The Lancet, 2025).


O ran effaith byw â gorbwysau neu ordewdra ar gymdeithas, mae costau i'r system iechyd a'r economi yn cynyddu'n sylweddol (Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016). Amcangyfrifwyd, os bydd cyfraddau gorbwysau a gordewdra yn parhau i godi, mai cost hyn i'r GIG yng Nghymru fydd £500 miliwn y flwyddyn erbyn 2050, gyda chost o £2.4 biliwn i gymdeithas a'r economi (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025b).

## 6.0 EFFAITH SIOPAU TECAWÊ BWYD POETH AR IECHYD

Yng Nghymru, mae siopau tecawê bwyd poeth yn perthyn i'r Dosbarth A3 mewn polisi cynllunio, o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (Llywodraeth y DU, 1987) ochr yn ochr â bwytai, tafarndai, caffis a bariau gwin. O fewn y dosbarth defnydd hwn diffinnir siopau tecawê bwyd poeth fel lleoedd sy'n 'gwerthu bwyd poeth sy'n cael ei fwyta oddi ar y safle yn bennaf'. Mewn rhai llenyddiaeth a dogfennau canllaw, defnyddir y termau 'siopau tecawê bwyd poeth' ac 'siopau bwyd cyflym' yn gyfnewidiol.

Mae dwysedd siopau bwyd cyflym (gan gynnwys siopau tecawê bwyd poeth)[4] yn amrywio ledled Cymru (Beynon & Bailey, 2019) a Lloegr (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2018a); yng Nghymru y cymedr oedd 100.65 o siopau bwyd cyflym fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2018. Ledled Caerdydd, dwysedd y siopau bwyd cyflym yn 2018 oedd 93.99 fesul 100,000 o'r boblogaeth (Beynon & Bailey, 2019). Mae data mwy diweddar heb ei gyhoeddi ar gyfer 2023 (Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro, 2023), yn awgrymu bod y dwysedd ledled Caerdydd wedi cynyddu rhwng 2018 a 2023, fel y dangosir yn Ffigur 4.

[4] Ceisiodd ymchwil gan Beynon & Bailey (2019) nodi siopau bwyd sy'n gwerthu bwyd sawrus ynni-ddwys a allai ddarparu pryd bwyd wedi'i baratoi y tu allan i'r cartref sydd ar gael yn gyflym. Felly, mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu ystod o siopau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bariau byrgyr, siopau cebab a chyw iâr, siopau sglodion, siopau tecawê Indiaidd, siopau tecawê Tsieineaidd a siopau pitsa.




**Ffigur 4:** Newid mewn Dwysedd Siopau Bwyd Cyflym yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ledled Caerdydd (a Bro Morgannwg) rhwng 2018 a 2023.

### 6.1 Amlygiad i Siopau Tecawê Bwyd Poeth a Chysylltiadau ag Iechyd a Lles

Dadansoddodd ymchwil gan y Ganolfan Ymchwil Deiet a Gweithgaredd (CEDAR) ddata a gynhyrchwyd gan Astudiaeth Fenland gan edrych ar amlygiad pobl i siopau tecawê bwyd poeth a'r berthynas rhwng bod dros bwysau a bwyta bwyd tecawê. Cynhaliwyd hyn drwy edrych ar ddwysedd siopau bwyd tecawê ger cartrefi, mannau gwaith a'u llwybrau cymudo pobl.

Dangosodd canlyniadau allweddol y dadansoddiad (Canolfan Ymchwil Deiet a Gweithgaredd UKCRC (CEDAR), 2014) fod:

- Amlygiad i siopau tecawê yn gysylltiedig â bwyta mwy o fwyd tecawê ac yn gysylltiedig yn gryf â Mynegai Màs y Corff (BMI) uwch;
- Gan y rhai sydd â mwy o amlygiad sydd BMI 1.21 uned yn uwch na'r rhai â’r lleiaf o amlygiad;
- Y rhai â’r amlygiad uchaf i fwyd tecawê bron i ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw â gordewdra o’u cymharu â'r rhai sydd ag amlygiad is.

### 6.2 Agosrwydd at Ysgolion a Chysylltiadau ag Iechyd a Lles

Crynodiad ac argaeledd siopau tecawê bwyd poeth ger ysgolion ac mewn ardaloedd preswyl yw un ffactor amgylcheddol a all ddylanwadu ar arferion deietegol plant dros amser.

Canfu adolygiad o dystiolaeth y DU ar effaith siopau tecawê bwyd poeth ger ysgolion fod siopau tecawê bwyd poeth yn fwy cyffredin mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd, a bod tuedd i blant sy'n treulio amser mewn cymdogaethau ag amddifadedd mwy fwyta mwy o fwyd cyflym ac mae ganddynt fynegai màs y corff (BMI) uwch. Fodd bynnag, canfuwyd bod tystiolaeth sy'n cysylltu agosrwydd siopau tecawê bwyd poeth at ysgolion â gordewdra ymhlith plant sy'n mynychu'r ysgolion

hynny yn gyfyngedig (Turbutt C, 2018).

Cadarnhawyd y berthynas rhwng agosrwydd at siopau bwyd cyflym a magu pwysau o ddiwedd plentyndod i'r glasoed cynnar ymhellach gan astudiaeth yn 2023 (Libuy, 2023). Canfu fod agosrwydd at siopau bwyd cyflym yn gysylltiedig â phwysau uwch (mynegai màs y corff, gorbwysau, gordewdra, braster corff, pwysau), ond dim ond ymhlith y rhai y mae addysg y fam islaw lefel gradd. O fewn y sampl hwn, mae'r rhai sydd â lefelau is o reolaeth emosiynol mewn perygl uwch o fagu pwysau.

Canfu ymgynghoriad 'Amgylchedd Bwyd Iach' Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022) yn 2022 fod 60% o'r cyfranogwyr yn yr ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig i adolygu dosbarthiad siopau tecawê a chododd bryderon a materion ynghylch agosrwydd siopau tecawê at ysgolion a cholegau hefyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i reoli siopau tecawê bwyd poeth ac agosrwydd at ysgolion fel rhan o Gynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2025-2027 (Llywodraeth Cymru, 2025a).

Yn ogystal, o'r 1007 o gyfranogwyr a gymerodd ran yn arolwg "Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus" Iechyd Cyhoeddus Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023) yn 2023, gwnaeth 60% o'r cyfranogwyr gytuno neu gytuno'n gryf â'r datganiad 'Dylid defnyddio cyfreithiau cynllunio i gyfyngu ar nifer y siopau tecawê afiach a'r siopau ger ysgolion'. Mae hyn yn dangos bod rhywfaint o farn gyhoeddus y dylid rheoli siopau tecawê bwyd poeth yng Nghymru mewn ardaloedd sy'n hawdd eu cyrraedd o ysgol neu goleg.

## 7.0 LLEOLIAD SIOPAU TECAWÊ BWYD POETH

Mae Polisi Cynllunio Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024) yn rhoi creu lleoedd wrth wraidd gwneud cynlluniau a phenderfyniadau, gyda'r disgwyliad y dylai'r system gynllunio helpu i ddarparu lleoedd sy'n iach, hygyrch ac atyniadol. Mae *Canol Trefi: Datganiad Sefyllfa* Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023b) yn pwysleisio bod canolfannau llwyddiannus yn dibynnu ar gymysgedd cytbwys ac amrywiol o ddefnyddiau sy'n cefnogi nifer yr ymwelwyr, gwariant lleol a hyder ar gyfer buddsoddiad, ac yn nodi, lle mae tarfu ar y cydbwysedd hwn, gall canolfannau brofi dirywiad mewn atyniad a gweithgarwch.

Yn y cyd-destun hwn, mae crynodiad siopau tecawê bwyd poeth mewn canolfannau manwerthu yn ystyriaeth defnydd tir berthnasol gan ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cymysgedd o ddefnyddiau a gallu canolfannau i gyflawni eu rôl a'u swyddogaeth. Lle mae siopau tecawê bwyd poeth yn cyfrif am gyfran uchel o unedau, gallant ystumio'r cydbwysedd o ddefnyddiau a lleihau amrywiaeth y cynnig manwerthu. Gall effeithiau cronnus godi hefyd, gan gynnwys newidiadau i weithgarwch ffryntiau a phwysau amwynder fel sŵn, gweithgareddau gwasanaethu a pharcio, a sbwriel. Gall y ffactorau hyn effeithio ar ganfyddiadau o atyniad a, dros amser, bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau, yn enwedig lle mae'r sylfaen unedau gyffredinol yn gyfyngedig.

Mae dadansoddiad o ganolfannau manwerthu Caerdydd yn dangos, lle mae siopau tecawê bwyd poeth yn dechrau ffurfio cyfran uwch o unedau llawr gwaelod, mae eu dylanwad ar gymeriad a swyddogaeth canolfannau yn dod yn fwy amlwg. Mae hyn


yn cefnogi'r defnydd o ddull sy'n seiliedig ar gyfrannau o nodi gor-grynodiad, gan ddarparu ffordd glir a chyson o asesu pryd y gall cydbwysedd defnyddiau o fewn canolfan ddechrau newid.

Mae dadansoddiad canolfannau manwerthu Caerdydd yn dangos pam mae hyn yn bwysig. Er bod Canol Dinas Caerdydd yn cynnwys nifer sylweddol o siopau tecawê, mae ei sylfaen unedau cyffredinol fwy yn golygu eu bod yn cynrychioli cyfran gymharol fach o unedau. Mewn cyferbyniad, mae nifer o ganolfannau ardal a lleol yn dangos cyfrannau sylweddol uwch o fewn sylfaen unedau lai, sy'n nodi lleoliadau lle mae gan un defnydd fwy o botensial i ddylanwadu ar gymeriad a swyddogaeth y ganolfan.


Mae'r rhesymau pam mae presenoldeb siopau tecawê yn annymunol o safbwynt iechyd y cyhoedd wedi'u disgrifio yn gynharach yn y papur hwn, ond yn ogystal â'r goblygiadau iechyd i bobl mae materion amwynder ar strydlun a'r sin manwerthu. Gall crynodiad neu glystyru siopau tecawê bwyd poeth mewn canolfannau manwerthu gynyddu amlygiad i opsiynau bwyd afiach ac arwain at unedau yn dechrau dominyddu'r sîn manwerthu a meddiannu unedau y gellid eu defnyddio fel arall ar gyfer dewisiadau amgen defnydd manwerthu iachach neu a ffefrir (Cyngor Dinas Bryste, 2023). Gall siopau tecawê bwyd poeth gynhyrchu gwastraff bwyd a sbwriel deunyddiau pecynnu bwyd, parcio ceir byrdymor y tu allan i'r uned a thagfeydd traffig dilynol yn ogystal â chynhyrchu sŵn yn ystod oriau gyda'r nos (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2014). Gall natur rhai mathau o unedau siopau tecawê arwain at gau'r siop yn ystod oriau dydd hefyd. Mae hyn yn creu ffryntiau strydoedd marw sy'n niweidio bywiogrwydd ardaloedd manwerthu neu strydoedd cymdogaeth ac yn effeithio ar hyfywedd yr ardaloedd hyn. Mae tuedd hefyd i siopau tecawê bwyd poeth gael eu lleoli ochr yn ochr â bariau, siopau betio, manwerthwyr sy'n gwerthu alcohol a mathau eraill o siopau tecawê a all ddylanwadu ymhellach ar iechyd y gymuned leol (Sustain, d.d.).

## 8.0 Mapio Siopau Tecawê Bwyd Poeth yng Nghaerdydd


Lleoliadau siopau tecawê bwyd poeth yn ôl cwintel MALIC, ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae Ffigurau 5, 6 a 7 yn dangos y canfyddiadau ar gyfer Caerdydd yn unig (mae Atodiad 2 yn dangos y map cyfunol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg). Mae lleoliadau wedi'u mapio yn erbyn cwintelau MALIC cenedlaethol o amddifadedd cyffredinol (Ffigur 6). Gan fod Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'u cyfoethogi ar gyfer ACEHIau ar y cwintelau amddifadedd mwyaf a lleiaf (1 a 5), gyda llai o ACEHIau ar lefelau amddifadedd canol (2, 3 a 4), i ystyried hyn, cyfrifwyd cwintelau MALIC lleol drwy gymhwyso'r un grwpiau yn ôl safle amddifadedd, ond gan ddefnyddio ACEHIau Caerdydd a Bro Morgannwg yn unig (Ffigur 7). Mae hyn yn darparu darlun lleol o amddifadedd yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Caerdydd a Bro Morgannwg lle mae pob cwintel amddifadedd yn cynnwys nifer ACEHIau wedi'i ddosbarthu'n gyfartal.




**Ffigur 5:** Dwysedd siopau tecawê bwyd poeth fesul 1000 o'r boblogaeth ledled Caerdydd.
**Ffynhonnell:** Crëwyd gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth gan SYG.




**Ffigur 6:** Lleoliadau siopau tecawê bwyd poeth yn ôl cwintel MALIC cenedlaethol ledled Caerdydd (1 = â'r amddifadedd mwyaf, 5 = â'r amddifadedd lleiaf).
**Ffynhonnell:** Crëwyd gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro. MALIC 2025 wedi'i gymryd o StatsCymru.




**Ffigur 7:** Lleoliadau siopau tecawê bwyd poeth yn ôl cwintel MALIC lleol (ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg), ledled Caerdydd (1 = â'r amddifadedd mwyaf, 5 = â'r amddifadedd lleiaf).
**Ffynhonnell:** Crëwyd gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro. Cwinteli MALIC 2025 (lleol) wedi'u cyfrifo o ddata StatsCymru gan ddefnyddio ACEHIau awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mae ffigurau 6 a 7 yn dangos cyfran uwch o siopau tecawê bwyd poeth mewn ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd. Mae'r patrwm hwn yn cyd-fynd ag adrannau cynharach o'r papur hwn sy'n dangos bod amddifadedd yn cysylltu’n gryf â chanlyniadau iechyd gwael, gan gynnwys lefelau uwch o ordewdra, salwch sy'n gysylltiedig â deiet a disgwyliad oes is.

Mae hyn yn cynrychioli pwysau amgylcheddol ychwanegol ar gymunedau sydd eisoes yn profi iechyd gwaelach, gan atgyfnerthu/cyfrannu at ehangu anghydraddoldebau iechyd drwy gynyddu amlygiad i opsiynau bwyd ynni-ddwys, sy'n ddiffygiol o ran maetholion mewn cymunedau sydd eisoes mewn mwy o berygl o iechyd gwael.

Nododd data Cyngor Caerdydd yn 2022 gyfanswm o 228 o unedau siopau tecawê bwyd poeth mewn canolfannau manwerthu (canol y ddinas a chanolfannau ardal a lleol) ledled Caerdydd. Mae Tabl 1 yn dangos faint o siopau tecawê bwyd poeth sydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas a chanolfannau ardal a lleol yng Nghaerdydd. Cyfrifir canran y siopau tecawê ym mhob canolfan fel cyfran o gyfanswm y siopau tecawê ledled canol y ddinas a'r holl ganolfannau ardal a lleol ledled Caerdydd hefyd, sy'n dangos y crynodiad.

**Tabl 1:** Dwysedd y siopau tecawê ar draws y canolfannau manwerthu yng Nghaerdydd (casglwyd y data yn 2022).
Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd

| Canolfan Fanwerthu | Nifer yr unedau siopau tecawê | Canran y siopau tecawê ar draws pob canolfan (%) | Cyfanswm yr unedau yn y ganolfan | Canran yr unedau yn y ganolfan sy'n siopau tecawê (%) |
|---|---|---|---|---|
| Canol Dinas Caerdydd | 38 | 17 | 725 | 5 |
| **Canolfannau Ardal** | | | | |
| Albany Road / Wellfield Road | 21 | 9 | 199 | 11 |
| Stryd Bute / Stryd James | 6 | 3 | 63 | 10 |
| Heol y Plwca | 22 | 10 | 170 | 13 |
| Stryd Clifton | 11 | 5 | 102 | 11 |
| Heol Ddwyreiniol y Bont-faen | 16 | 7 | 188 | 9 |
| Heol y Crwys / Heol Woodville | 17 | 7 | 131 | 13 |
| Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd | 6 | 3 | 94 | 6 |
| Heol Penarth/Heol Clare | 12 | 5 | 72 | 17 |
| Llaneirwg | 1 | 0 | 20 | 5 |
| Heol yr Eglwys Newydd | 12 | 5 | 121 | 10 |
| **Canolfannau Lleol** | | | | |
| Llwynbedw | 10 | 4 | 48 | 21 |
| Stryd Bute | 1 | 0 | 12 | 8 |
| Lôn Caerau | 1 | 0 | 9 | 11 |
| Heol y Gadeirlan / Stryd Pontcanna | 2 | 1 | 27 | 7 |
| Rhodfa Countisbury | 5 | 2 | 36 | 14 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lawnt y Tyllgoed | 1 | 0 | 16 | 6 |
| Rhodfa Gabalfa | 1 | 0 | 15 | 7 |
| Y Rhodfa Fawr | 5 | 2 | 20 | 25 |
| Y Maelfa, Llanedern | 2 | 1 | 12 | 17 |
| Heol Casnewydd, Tredelerch | 7 | 3 | 48 | 15 |
| Heol Salisbury | 9 | 4 | 45 | 20 |
| Heol y Sblot | 5 | 2 | 38 | 13 |
| Heol yr Orsaf, Ystum Taf | 5 | 2 | 32 | 16 |
| Heol yr Orsaf, Llanisien | 2 | 1 | 28 | 7 |
| Stryd Tudor | 5 | 2 | 35 | 14 |
| Willowbrook Drive, Llaneirwg | 1 | 0 | 4 | 25 |
| Heol Wilson | 4 | 2 | 15 | 27 |
| Cyfanswm | 228 | | | |

Mae nifer y siopau tecawê bwyd poeth yn uchel mewn llawer o ardaloedd ac yn enwedig mewn ardaloedd ag amddifadedd, yn unol â'r data a ddangosir yn Ffigurau 6 a 7. Er enghraifft, mewn canolfannau ardal:

- Mae gan Stryd Clifton 11 o unedau, gan arwain at 11% o'r holl unedau sy'n siopau tecawê bwyd poeth. Ac yn y ganolfan leol:
- Mae gan Y Rhodfa Fawr 20 o unedau, gan arwain at 25% o'r holl unedau sy'n siopau tecawê bwyd poeth.
- Mae gan Heol Wilson 4 o unedau, gan arwain at 27% o'r holl unedau sy'n siopau tecawê bwyd poeth.
- Mae gan Stryd Tudor 5 siop tecawê bwyd poeth, gan arwain at 14% o'r holl unedau sy'n siopau tecawê bwyd poeth.
- Mae gan Heol y Sblot 5 siop tecawê bwyd poeth, gan arwain at 14% o'r holl unedau sy'n siopau tecawê bwyd poeth.

Mae Tabl 1 a Ffigurau 6 a 7 ar wahân a gyda'i gilydd yn cadarnhau bod y dystiolaeth yn y llenyddiaeth yn berthnasol i Gaerdydd gan fod niferoedd uwch a chrynodiad cynyddol o siopau tecawê bwyd poeth yn yr ardaloedd ag amddifadedd mwy lle mae canlyniadau iechyd gwaelach eisoes. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw dwysedd siopau tecawê bwyd poeth, clystyru ac amlygiad wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled Caerdydd.

## 9.0 DULLIAU AR GYFER RHEOLI GOR-GRYNODIAD AC EFFEITHIAU CRONNUS SIOPAU TECAWÊ BWYD POETH

### 9.1 Cyfyngiadau dwysedd

Yn unol â bwriad Polisi HF1, mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar gyfrannau i reoli nifer ac agosrwydd defnyddiau tecawê bwyd poeth mewn canolfannau manwerthu, lle byddai eu presenoldeb cronnus yn arwain at or-grynodiad ac yn tanseilio'r gwaith o greu amgylchedd bwyd iach a chytbwys. Archwiliodd astudiaeth (Matthew Keeble, 2019) yn 2019 bolisïau cynllunio sy'n mynd i'r afael yn benodol â siopau tecawê bwyd poeth ar draws 325 o ardaloedd llywodraeth leol yn Lloegr a nododd ddulliau 'ar sail iechyd' a 'heb fod ar sail iechyd' o reoli siopau tecawê bwyd poeth. Canfuwyd bod

gan gant chwe deg pedwar (50.5%) o ardaloedd llywodraeth leol bolisi sy'n targedu'n benodol siopau bwyd tecawê; roedd 146 o ddulliau yn cynnwys lleihau effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â siopau bwyd tecawê o fewn ffin ardal llywodraeth leol, er enghraifft, sbwriel, arogleuon, sŵn, traffig ac ati yn bennaf. Nodwyd dulliau sy'n canolbwyntio ar iechyd mewn 56 o ardaloedd (34.1%) yn fwyaf cyffredin ar ffurf parthau gwahardd ger lleoedd i blant a theuluoedd (n = 33). Fodd bynnag, mae parthau gwahardd fel arfer yn mynd i'r afael ag amlygiad cyfyngedig, safle-benodol ac nid ydynt yn mynd i'r afael â'r effeithiau cronnus ehangach sy'n gysylltiedig â chrynodiad uchel o siopau tecawê bwyd poeth ar draws amgylcheddau bwyd cymdogaeth.

Mae'r tabl canlynol yn rhestru rhai enghreifftiau o Ganllawiau Cynllunio Atodol Siopau Tecawê Bwyd Poeth o bob cwr o Gymru sy'n cynnwys cyfyngiadau ar sail dwysedd ac, mewn rhai achosion, parthau gwahardd. Mae rhagor o enghreifftiau o Loegr wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Mae sawl awdurdod yn nodi trothwyon sy'n seiliedig ar gyfrannau (yn aml yn amrywio rhwng 5% a 15%), gyda throthwyon is yn cael eu cymhwyso yng nghanol dinasoedd a throthwyon uwch yn cael eu caniatáu mewn canolfannau ardal a lleol lle mae swyddogaeth manwerthu yn fwy cymysg. Mae'r dull hwn yn cael ei ystyried yn ffordd effeithiol o reoli gor-grynodiad ac ystyried y lefelau presennol o ddarpariaeth tecawê. Mae awdurdodau sydd wedi mabwysiadu trothwyon canran wedi gwneud hynny fel rhan o fframwaith polisi ehangach, gan gyfuno terfynau uchaf â rheolaethau sy'n seiliedig ar ffryntiau, profion clystyru a chyfyngiadau agosrwydd, yn hytrach na dibynnu ar un terfyn rhifiadol.

**Tabl 2:** Terfynau/ argymhellion siopau tecawê bwyd poeth ac awdurdodau lleol (Cymru).

| Ardal a dolen we | Terfynau / argymhellion |
|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (2014)**<br>Defnyddiau Bwyd a Diod Poeth mewn Canol Trefi Canllaw Cynllunio Atodol | - Dim mwy na 25% o gyfanswm yr unedau manwerthu / adeiladau y tu allan i'r Brif Ardal Manwerthu.<br>- Ni ddylai mwy na dau ddefnydd A3 fod yn gyfagos i'w gilydd yn y Prif Ganol Trefi, a'r Canolfannau Ardal a Lleol. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (2007)**<br>Sefydliadau Siopau Tecawê Bwyd Poeth | - Dim siopau tecawê bwyd poeth mewn ardaloedd cwbl breswyl.<br>- Amseroedd agor wedi'u cyfyngu yn ôl yr ardal.<br>- Cyfyngu clystyrau o siopau tecawê bwyd poeth os yw'n debygol o gael effaith andwyol ar amwynder preswyl lleol. |
| **Cyngor Bro Morgannwg (2025)**<br>Siopau Tecawê Bwyd Poeth | - Dim mwy na:<br>o 6% o unedau yng nghanol trefi a chanolfannau ardal<br>o 10% o bob math arall o ganolfan fanwerthu gyda chyfanswm o dros 20 o unedau<br>o 20% o bob math arall o ganolfan fanwerthu gyda chyfanswm o rhwng 10 ac 20 o unedau<br>o 30% o bob math arall o ganolfan fanwerthu gyda chyfanswm o lai na 10 o unedau.<br>- Dim mwy na dwy siop tecawê bwyd poeth |

| | |
|---|---|
| | gyda'i gilydd ac o leiaf 3 uned tecawê nad ydynt yn A3 sy'n gwahanu clystyrau. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2011)**<br>Siopau Tecawê Bwyd Poeth | - Dim siop tecawê bwyd poeth a fyddai'n arwain at golled neu ddifrod sylweddol i amwynder preswyl, ansawdd bywyd, iechyd cymunedol, symudiad traffig neu ddiogelwch priffyrdd a cherddwyr.<br>- Dim siop tecawê bwyd poeth newydd yn y canlynol:<br>o Canol tref Wrecsam (prif strydoedd siopa) os ydynt yn niweidiol i gymeriad, bywiogrwydd neu hyfywedd yr ardal.<br>o Ardaloedd preswyl yn bennaf.<br>o O fewn 400 metr i ffin ysgol neu goleg trydyddol. |

### 9.2 Canolfannau manwerthu

Mae gan Gaerdydd ystod amrywiol o ganolfannau manwerthu sy'n amrywio'n sylweddol o ran graddfa, swyddogaeth, cymeriad a chrynodiadau presennol o siopau tecawê bwyd poeth. Byddai cymhwyso un terfyn canran unffurf ar draws pob canolfan yn amhriodol felly, a byddai'n methu ag adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn, gan y gallai fod yn rhy gyfyngol mewn canolfannau llai lle gall nifer fach o unedau gael effaith anghymesur neu beidio â bod yn ddigon effeithiol mewn canolfannau mwy.

Er mwyn llywio dull Caerdydd, adolygwyd arferion cynllunio ledled Cymru a Lloegr (Tabl 2 ac Atodiad 1 yn y drefn honno). Mae hyn yn dangos defnydd sefydledig a derbynnir yn eang o drothwyon sy’n seiliedig ar gyfrannau o fewn canllawiau cynllunio atodol i reoli effeithiau cronnus siopau tecawê bwyd poeth. Er bod canrannau penodol yn amrywio, mae patrwm cyson yn dod i'r amlwg (fel arfer yn amrywio o 5% i 15%): cymhwysir trothwyon is i ganol dinasoedd i amddiffyn goruchafiaeth manwerthu, a rhoddir mwy o hyblygrwydd mewn canolfannau ardal a lleol i adlewyrchu eu rôl dan arweiniad gwasanaethau. Mae llawer o awdurdodau yn nodi trothwyon yn yr ystod 5-15% o unedau fel y pwynt pan fo crynodiadau yn dechrau tanseilio cydbwysedd, amwynder a bywiogrwydd canolfannau, yn enwedig mewn canolfannau lleol ac ardal. Cymhwysir trothwyon canrannol uwch i ganolfannau mwy yn unig lle mae nifer gyffredinol uwch o unedau yn golygu bod yr un gyfran yn cynrychioli dylanwad cymharol is ar gymeriad canolfan, cydbwysedd defnydd tir ac amlygiad i ddefnyddiau siopau tecawê bwyd poeth.

Gan ystyried yr arfer cynllunio sefydledig hwn, ochr yn ochr ag amcanion polisi Cymru, tystiolaeth iechyd leol ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), mae Caerdydd wedi mabwysiadu dull haenog sy’n seiliedig ar gyfrannau (Tabl 3). Cymhwysir trothwy uchaf o 6% o siopau tecawê bwyd poeth yng nghanol y ddinas i gydnabod ei phrif rôl fanwerthu lle mae cynnal goruchafiaeth manwerthu a gweithgarwch yn ystod y dydd yn arbennig o bwysig. Mae trothwy o hyd at 12% o siopau tecawê bwyd poeth yn cael ei gymhwyso mewn canolfannau ardal sy'n gwasanaethu dalgylch ehangach ac yn cyflawni rôl fanwerthu fwy amrywiol, gwasanaeth ac economi gyda'r nos; mae'r 12% yn caniatáu lefel resymol o

ddarpariaeth bwyd wrth atal goruchafiaeth ac yn gwarchod swyddogaeth fanwerthu gyffredinol y canolfannau hyn. O fewn canolfannau lleol, sy'n gyffredinol yn llai o ran maint ac sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion cymunedol o ddydd i ddydd, cymhwysir trothwy o 18% i sicrhau bod y polisi yn gweithredu'n gymesur. Mae'r trothwyon arfaethedig yn adlewyrchu maint a hierarchaeth y canolfannau, lefelau presennol o ddarpariaeth, a'r angen am ymateb cymesur sy'n cefnogi bywiogrwydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Y sefyllfa a ffefrir gan Iechyd Cyhoeddus yw trothwy uchaf cyson o 6% o siopau tecawê bwyd poeth ar draws pob canolfan, i gefnogi camau atal ac i leihau baich hirdymor salwch sy'n gysylltiedig â deiet. Fodd bynnag, gan gydnabod yr angen i ganiatáu twf busnes priodol wrth barhau i anelu at amgylchedd bwyd iachach, mabwysiadwyd dull haenog fel cyfaddawd cymesur.

Mae'r trothwyon yn Nhabl 3 yn darparu meincnod clir a thryloyw ar gyfer nodi gor-grynodiad, wrth ganiatáu i gynigion gael eu hasesu mewn modd hyblyg ochr yn ochr ag ystyriaethau safle-benodol, gan gynnwys swyddogaeth y ganolfan, amddifadedd, agosrwydd at ysgolion a chanlyniadau iechyd lleol. At ddibenion y canllawiau hyn, gor-grynodiad yw pan fo mwy nag uchafswm y gyfran o unedau a ganiateir yn siopau tecawê bwyd poeth ym mhob canolfan fanwerthu ddiffiniedig.

**Tabl 3:** Canllawiau arfaethedig ar reoli gor-grynodiad siopau tecawê bwyd poeth yng Nghaerdydd.


| Math o Ganolfan Fanwerthu | Maint y ganolfan fanwerthu (Cyfanswm yr unedau) | Uchafswm canran o gyfanswm yr unedau a ganiateir fel unedau siopau tecawê bwyd poeth (%) |
|---|---|---|
| Canol y Ddinas | Pob uned | 6% |
| Canolfannau Lleol ac Ardal | Hyd at 19 | 12% |
| | 20 neu fwy | 18% |

## 9.3 Clystyru Siopau Tecawê Bwyd Poeth

Er mwyn lleihau clystyrau o siopau tecawê, mae angen polisi cynllunio:

- I atal caniatáu clystyrau o fwy na dwy uned tecawê bwyd poeth A3 yn gyfagos o fewn canolfannau ardal a lleol.
- Dylid ystyried agosrwydd uned tecawê bwyd poeth at glwstwr presennol o ddwy yn ystod y cam ymgeisio am gynllunio ar gyfer siop tecawê bwyd poeth newydd a dylai o leiaf dair uned nad ydynt yn A3 wahanu clystyrau presennol.

Mae Ffigur 8 yn dangos beth allai fodoli heb lain glustogi rhwng clystyrau o'i gymharu â gwahanu gyda llain glustogi o dair uned.




**Ffigur 8:** Enghraifft o glystyrau siopau tecawê bwyd poeth heb lain glustogi, a gyda llain glustogi o dair uned (Addaswyd o Ddogfen Cynllunio Atodol Bwrdeistref Llundain Barking & Dagenham (Bwrdeistref Llundain, Barking a Dagenham, 2010) a Chyngor Bro Morgannwg (Cyngor Bro Morgannwg, 2025).

### 9.4 Parthau gwahardd

Mae parthau gwahardd yn ddull cynllunio a ddefnyddir gan rai Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyfyngu ar ddatblygu siopau tecawê bwyd poeth newydd o fewn pellter diffiniedig o ddefnyddiau tir penodol, megis ysgolion lle mae poblogaethau sylweddol o blant. Mae gan gyflwyno mesur o'r fath ger ysgolion y potensial i wella iechyd a lles plant drwy gyfyngu ar fynediad at brydau bwyd afiach amser cinio neu ar ôl ysgol.

Ar ddiwedd 2017 (John Rahilly, 2024), roedd 35 o awdurdodau lleol (ALlau) yn Lloegr wedi mabwysiadu parthau rheoli siopau tecawê (neu "barthau gwahardd") i leihau amlygiad corfforol i siopau tecawê ger ysgolion (gyda meincnod polisi o radiws o 400m o brif fynedfa'r ysgol). Canfu astudiaeth ddiweddar (John Rahilly, 2024) y gallai polisïau parthau rheoli siopau tecawê fod â'r potensial i atal amlhau siopau tecawê newydd ger ysgolion ac yna effeithio ar iechyd y boblogaeth.

Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag agosrwydd siopau tecawê bwyd poeth at ysgolion yn gymysg (48), gyda chanfyddiadau cryfach ar gyfer cysylltiadau ag amddifadedd ac ymddygiadau deietegol nag ar gyfer cysylltiadau uniongyrchol â chanlyniadau gordewdra. Croesewir datblygu ymagwedd genedlaethol at hyn.

Mae parthau gwahardd yn mynd i'r afael ag amlygiad cyfyngedig, safle-benodol (e.e. ger ysgolion) ond nid ydynt yn mynd i'r afael â'r effeithiau cronnus ar yr amgylchedd bwyd ehangach, bywiogrwydd canolfannau nac anghydraddoldebau iechyd.

### 9.5 Dull a ffefrir ar gyfer rheoli gor-grynodiad ac effeithiau cronnus siopau tecawê bwyd poeth

Mae'r brif her yng Nghaerdydd yn deillio o or-grynodiad a chlystyru siopau tecawê bwyd poeth. Lle mae siopau tecawê bwyd poeth yn cyfrif am gyfran uchel o unedau, mae eu dylanwad ar gymeriad a swyddogaeth canolfannau yn dod yn fwy amlwg.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos nad yw dwysedd, clystyru ac amlygiad siopau tecawê bwyd poeth wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws Caerdydd, gyda chydleoliad crynodiadau uwch o siopau tecawê bwyd poeth mewn cymunedau ag amddifadedd mwy lle mae canlyniadau iechyd gwaelach eisoes. Yn y cyd-destun hwn, nid yw cymhwyso trothwyon sy'n seiliedig ar gyfrannau, rheolaethau clystyru a rheoli effaith gronnus yn ymwneud â rheoli defnydd tir yn unig, ond â lleihau amlygiad anghyfartal i amgylcheddau bwyd afiach. Felly, mae'r mesurau hyn yn chwarae rhan bwysig wrth amddiffyn cymunedau sy'n profi'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf ac wrth gefnogi bwriad Polisi HF1 i leihau anghydraddoldebau mewn mynediad at amgylchedd bwyd iach.

Ystyrir mai rheoli effaith gronnus a gor-grynodiad siopau tecawê bwyd poeth yw'r ymateb cynllunio mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer Caerdydd, gan mai nod hyn yw mynd i'r afael ag effeithiau cronnus ehangach dwysedd siopau tecawê uchel ar amgylcheddau bwyd bob dydd, bywiogrwydd canolfannau, amwynderau ac anghydraddoldebau iechyd. Ni fyddai dibynnu ar barthau gwahardd yn unig yn mynd i'r afael â'r gor-grynodiad a'r clystyru a nodwyd ledled Caerdydd.

Nid yw'r dull hwn yn ceisio atal siopau tecawê bwyd poeth yn llwyr, yn hytrach rheoli eu lleoliad a'u crynodiad i sicrhau bod canolfannau yn cadw cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau sy'n gallu cefnogi bywiogrwydd, hyfywedd a gwytnwch economaidd hirdymor, yn unol â Pholisi R8.

## 10.0 CANLLAWIAU GWEITHREDU

Argymhellir y canllawiau canlynol ar gyfer polisi ar gyfer Caerdydd:
*Er mwyn hyrwyddo cymunedau iachach a gwarchod hyfywedd ac atyniad manwerthu a chymdogaethau lleol, dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y bydd cynigion ar gyfer Siopau Tecawê Bwyd Poeth Defnydd Dosbarth A3 newydd yn cael eu caniatáu:*

- *Mae'r cynnig o fewn canolfan fanwerthu leol neu ardal ddiffiniedig neu ganolfan fanwerthu yng nghanol y ddinas ac nid yw'n achosi nac yn gwaethygu gor-grynodiad o ddefnyddiau Siopau Tecawê Bwyd Poeth Defnydd Dosbarth* A3 yn y ganolfan honno.
- *Mae gor-grynodiad pan fo mwy na'r gyfran benodol o unedau a ganiateir fel siopau tecawê bwyd poeth ym mhob canolfan fanwerthu ddiffiniedig fel yr amlinellir yn y tabl isod.*

***Tabl 4:*** *Enghraifft o ganolfannau manwerthu a fydd wedi cyrraedd capasiti os ydynt yn cymhwyso'r canllawiau ledled Caerdydd*.

| *Math o Ganolfan Fanwerthu* | *Maint y ganolfan fanwerthu (Cyfanswm yr unedau)* | *Uchafswm canran o gyfanswm yr unedau a ganiateir fel unedau siopau tecawê bwyd poeth (%)* |
|---|---|---|
| *Canol y Ddinas* | *Pob uned* | *6%* |
| *Canolfannau Lleol ac Ardal* | *Hyd at 19* | *12%* |
| | *20 ac uwch* | *18%* |

- *Nid yw'r cynnig yn arwain at glystyru annerbyniol o siopau tecawê bwyd poeth, a ddiffinnir fel dim mwy na dwy uned siop tecawê gyfagos ac o leiaf 3 uned nad ydynt yn siopau tecawê bwyd poeth A3 yn gwahanu clystyrau.*
- *Nid yw'r cynnig yn niweidio amwynder, cymeriad, hyfywedd nac atyniad yr ardal a'r gymdogaeth gyfagos.*
- *Ni fydd cynigion ar gyfer Siopau Tecawê Bwyd Poeth A3 newydd y tu allan i'r ardaloedd manwerthu diffiniedig uchod yn dderbyniol.*
- *Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi sy'n nodi eglurhad pellach ar sut y bydd Siopau Tecawê Bwyd Poeth A3 yn cael eu diffinio a sut y bydd y canllawiau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.*

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu i fod yn CCA Siopau Tecawê Bwyd Poeth.

Mae cymhwyso hyn ledled Caerdydd yn amlygu bod y canolfannau manwerthu canlynol (Tabl 5) wedi cyrraedd capasiti gyda'r nifer presennol o unedau wedi'u dyrannu ar gyfer siopau tecawê bwyd poeth. I nodi, bwriedir i'r canllawiau hyn fod yn berthnasol i gymhwysiad yn y dyfodol a pheidio ag effeithio ar unedau siopau tecawê bwyd poeth presennol mewn canolfannau manwerthu.

**Tabl 5:** Enghraifft o ganolfannau manwerthu a fydd wedi cyrraedd capasiti neu godi uwchlaw hynny os yw'n cymhwyso'r canllawiau hyn ledled Caerdydd.

**Allwedd:**
Gwyrdd – Crynodiad o STBP heb ei gyrraedd.
Oren – Crynodiad o STBP wedi'i gyrraedd, ni fyddai unrhyw geisiadau ychwanegol yn cael eu cymeradwyo.
Coch – Wedi codi uwchlaw'r crynodiad o STBP, ni fyddai unrhyw geisiadau ychwanegol yn cael eu cymeradwyo.

| Canolfan Fanwerthu | Nifer cyfredol yr unedau siopau tecawê | Cyfanswm yr unedau yn y ganolfan | Uchafswm canran yr unedau sy'n gymwys i fod yn STBP (gan gymhwyso'r canllawiau, %) | Uchafswm yr unedau STBP posibl cyn cyrraedd gor-grynodiad | Statws COG |
|---|---|---|---|---|---|
| Canol Dinas Caerdydd | 38 | 725 | 6% | 43.5 | 5.5 uned o dan y terfyn |
| **Canolfannau Ardal** | | | | | |
| Heol Albany / Heol Wellfield | 21 | 199 | 12% | 23.88 | 2.88 uned o dan y terfyn |
| Stryd Bute / Stryd James | 6 | 63 | 12% | 7.56 | 1.56 uned o dan y terfyn |
| Heol y Plwca | 22 | 170 | 12% | 20.4 | 1.6 uned dros y terfyn |
| Stryd Clifton | 11 | 102 | 12% | 12.24 | 1.24 uned o dan y terfyn |
| Heol Ddwyreiniol y Bont-faen | 16 | 188 | 12% | 22.56 | 6.56 uned o dan y terfyn |
| Heol y Crwys/Heol Woodville | 17 | 131 | 12% | 15.72 | 1.28 uned dros y terfyn |
| Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd | 6 | 94 | 12% | 11.28 | 5.28 uned o dan y terfyn |
| Heol Penarth/Heol Clare | 12 | 72 | 12% | 8.64 | 3.36 uned dros y terfyn |
| Llaneirwg | 1 | 20 | 12% | 2.4 | 1.4 uned o dan y terfyn |
| Heol yr Eglwys Newydd | 12 | 121 | 12% | 14.52 | 2.52 uned o dan y terfyn |
| **Canolfannau Lleol** | | | | | |
| Llwynbedw | 10 | 48 | 18% | 8.64 | 1.36 uned dros y terfyn |
| Stryd Bute | 1 | 12 | 18% | 2.16 | 1.16 uned o dan y terfyn |
| Lôn Caerau | 1 | 9 | 18% | 1.62 | 0.62 uned dros y terfyn |
| Heol y Gadeirlan / Stryd Pontcanna | 2 | 27 | 18% | 4.86 | 2.86 uned o dan y terfyn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhodfa Countisbury | 5 | 36 | 18% | 6.48 | 1.48 uned o dan y terfyn |
| Lawnt y Tyllgoed | 1 | 16 | 18% | 2.88 | 1.88 uned o dan y terfyn |
| Rhodfa Gabalfa | 1 | 15 | 18% | 2.7 | 1.7 uned o dan y terfyn |
| Y Rhodfa Fawr | 5 | 20 | 18% | 3.6 | 1.4 uned dros y terfyn |
| Y Maelfa, Llanedern | 2 | 12 | 18% | 2.16 | 0.16 uned dros y terfyn |
| Heol Casnewydd, Tredelerch | 7 | 48 | 18% | 8.64 | 1.64 uned o dan y terfyn |
| Heol Salisbury | 9 | 45 | 18% | 8.1 | 0.9 uned dros y terfyn |
| Heol y Sblot | 5 | 38 | 18% | 6.84 | 1.84 uned o dan y terfyn |
| Heol yr Orsaf, Ystum Taf | 5 | 32 | 18% | 5.76 | 0.76 uned dros y terfyn |
| Heol yr Orsaf, Llanisien | 2 | 28 | 18% | 5.04 | 3.04 uned o dan y terfyn |
| Stryd Tudor | 5 | 35 | 18% | 6.3 | 1.3 uned o dan y terfyn |
| Rhodfa Nant Helyg, Llaneirwg, | 1 | 4 | 18% | 0.72 | 0.28 uned dros y terfyn |
| Heol Wilson | 4 | 15 | 18% | 2.7 | 1.3 uned dros y terfyn |
| **Cyfanswm** | **228** | | | | |

## 11.0 CASGLIAD

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn y papur hwn yn dangos bod yr her o ran iechyd cyhoeddus a chreu lleoedd sy'n gysylltiedig â siopau tecawê bwyd poeth yng Nghaerdydd yn deillio o'u gor-grynodiad a'u clystyru, yn enwedig o fewn canolfannau ardal a lleol sy'n gwasanaethu cymunedau mwy difreintiedig.

Mae'r dystiolaeth yn dangos cysylltiad clir rhwng amddifadedd, canlyniadau iechyd gwael, a dwysedd uwch o siopau tecawê bwyd poeth, ochr yn ochr ag effeithiau ar gymeriad y ganolfan, amwynder a chydbwysedd defnyddiau.

Er y gall parthau gwahardd ger ysgolion fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag amlygiad safle-benodol, nid ydynt yn mynd i'r afael â'r amgylchedd bwyd bob dydd ehangach nac effeithiau cronnus siopau tecawê bwyd poeth ar draws cymdogaethau.

Yn y cyd-destun hwn, ystyrir mai dull sy'n seiliedig ar gyfran sy'n rheoli nifer, agosrwydd a chlystyru siopau tecawê bwyd poeth yw'r ymateb cynllunio mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer Caerdydd, gan gefnogi'n uniongyrchol fwriad Polisi HF1 i wrthsefyll gor-grynodiad a hyrwyddo creu amgylchedd manwerthu bwyd iach, a

Pholisi R8 wrth ddarparu bywiogrwydd, hyfywedd a chymeriad canolfannau a diogelu amwynder preswyl.

**Atodiad 1**


**Tabl 6:** Awdurdodau lleol a therfynau/argymhellion ar gyfer siopau tecawê bwyd poeth (Lloegr).

| Ardal a dolen we | Terfynau / argymhellion |
|---|---|
| **Barking a Dagenham (2010)** Saturation-Point-SPD-Addressing-the-Health-Impacts-of-Hot-Food-Takeaway.pdf | Y tu allan i'r parth gwahardd (ger ysgolion), caniateir STBPau dim ond lle:<br>- Maent mewn canolfannau trefol, ardal neu leol, ac<br>- Yn arwain at ddim mwy na 5% o'r unedau yn STBPau<br>- Dim mwy na 2 uned A5 gerllaw<br>- Dim llai na 2 uned nad ydynt yn A5 rhwng grŵp o STBPau. |
| **Dinas Bradford 2014** Hot Food Takeaways | Dylid ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ystyried cais am STBP newydd:<br>- Gor-grynodiad o STBPau<br>- Agosrwydd at ysgolion, cyfleusterau ieuenctid a pharciau, o fewn 400m i ffin ysgol gynradd neu uwchradd neu gyfleuster ar gyfer pobl ifanc presennol, o fewn 400m i ffin maes hamdden neu barc<br>- Effaith annerbyniol ar ddiogelwch priffyrdd<br>- Agosrwydd at ardaloedd preswyl. |
| **Manceinion (2017)** Hot Food Takeaway Supplementary Planning Document March 2017 | - Dim mwy na 10% o'r ffryntiau mewn canolfannau ardal neu leol<br>- Dim mwy na 2 STBP gyda'i gilydd. |
| **Medway (2014)** https://www.medway.gov.uk/downloads/download/32/local_plan_evidence_base | - Ardal fanwerthu graidd/canol tref – dim mwy na 10%<br>- Cymdogaeth neu ardal leol fwy – dylai A1 fod yn 40%, A5 ddim yn fwy na 15% fel arfer<br>- Canolfan leol lai – ni chaniateir A5 fel arfer os byddai'n disodli A1, neu os byddai'n arwain at fwy na 3 uned gyfagos yn STBPau<br>- Oriau gweithredu wedi'u cyfyngu ger ysgolion (ar gau rhwng 12:00 a 14:00 o fewn 400m o ysgol uwchradd; a rhwng 15:00 a 17:00 o fewn 400m o ysgol gynradd neu ysgol uwchradd). |

| | |
|---|---|
| **Cyngor Dinas Salford (2014)**<br>Hot Food Take Aways | Polisïau cynllunio<br>- Crynodiadau priodol o siopau tecawê bwyd poeth mewn canolfannau trefol a chymdogaeth<br>- Siopau tecawê bwyd poeth ac ysgolion – STBP arfaethedig o fewn 400 metr i ysgol uwchradd, rhoddir caniatâd cynllunio yn dilyn amod nad yw'r safle ar agor i'r cyhoedd cyn 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac nad oes gwerthiannau dros y cownter cyn yr amser hwnnw<br>- Oriau agor STBP wedi'u rheoli i sicrhau bod amwynder yn cael ei ddiogelu'n briodol. |

| | |
|---|---|
| **St Helens (2011)**<br>Supplementary Planning Document - Hot Food Takeaways | Mewn canolfan drefol, ardal neu leol, ni ddylai STBPau arwain at:<br>- Fwy na 5% o'r unedau yn STBPau<br>- Mwy na 2 uned A5 gerllaw<br>- Dim llai na 2 uned nad ydynt yn A5 rhwng STBPau unigol neu grŵp<br>- Cyfran A1 mewn ffryntiadau manwerthu cynradd yn disgyn o dan 75%. |
| **Tower Hamlets** (polisi yn eu cynllun lleol ar gyfer 2020-2031, nid DGA)<br>Tower Hamlets Local Plan 2031 - Policies Part 1 | - Gwahanu o leiaf 4 uned nad ydynt yn A5 rhwng pob uned STBP newydd<br>- Heb fod yn fwy na 5% o gyfanswm yr unedau mewn canolfannau mawr, ardal neu gymdogaeth<br>- Dim mwy nag 1 uned A5 mewn rhodfeydd cymdogaeth. |
| **Waltham Forest (2009)**<br>Waltham Forest SPD - Hot Food Takeaway Shops, March 2009 | - Dim mwy na 5% o unedau mewn rhodfeydd manwerthu canol trefi, cymdogaeth neu leol (parthau cynradd)<br>- Dim mwy nag un uned A5 o fewn 400m i uned A5 bresennol mewn ardaloedd y tu allan i'r uchod<br>- Dim mwy na dwy uned A5 gyfagos i'w gilydd (pob parth)<br>- Rhwng unigolion neu grwpiau o STBPau dylai fod o leiaf dwy uned nad ydynt yn A5 (pob parth). |
| **Cyngor Bwrdeistref Woking**<br>Hot Food Takeaway Supplementary Planning Document | - Crynodiadau priodol o siopau tecawê bwyd poeth mewn canolfannau trefol a chymdogaeth<br>- Rheoli gor-amlder a chlystyru gormodol o STBPau mewn canolfannau a rhodfeydd siopa diffiniedig<br>- Diogelwch cerddwyr a defnyddwyr y ffordd. |

**Atodiad 2:** Lleoliadau siopau tecawê bwyd poeth yn ôl cwintel MALIC, ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.




**Ffigur 9:** a) Dwysedd siopau tecawê bwyd poeth fesul 1000 o'r boblogaeth ledled Caerdydd; Lleoliadau siopau tecawê bwyd poeth ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg b) yn ôl cwintel MALIC a c) yn ôl cwintelau lleol MALIC.
**Ffynhonnell:** Crëwyd gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gan ddefnyddio a) amcangyfrifon poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol; b) MALIC 2025 a gymerwyd o StatsCymru a; c) cwintelau MALIC 2025 (lleol) wedi'u cyfrifo o ddata StatsCymru gan ddefnyddio AGEHI awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg.

## 12.0 CYFEIRIADAU

al, C. e. (2024, Tachwedd). *Using the planning system to promote a healthier food environment: review of planning policies and appeal decisions in England for hot food takeaways. .* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://liverpooluniversitypress.co.uk/doi/10.3828/tpr.2024.39

Beynon, C., a Bailey, C. (2019). *Adroddiad Dwysedd Mannau Gwerthu Bwyd Sydyn.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/adroddiad-iechyd-cyhoeddus/dwysedd-mannau-gwerthu-bwyd-sydyn-yng-nghymru-2019/

Cyngor Dinas Bryste. (2023, Tachwedd). *Bristol Local Plan.* Cyrchwyd Mai 30, 2024, o https://www.bristol.gov.uk/files/documents/6894-bristol-local-plan-main-document-publication-version-nov-2023/file

Cyngor Dinas Bryste. (2023). *Bristol Local Plan.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://www.bristol.gov.uk/files/documents/6894-bristol-local-plan-main-document-publication-version-nov-2023/file

Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro. (2023). *Heb ei gyhoeddi: Newid mewn Dwysedd Allfeydd Bwyd Cyflym yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg rhwng 2018 a 2023.* Caerdydd: Heb ei gyhoeddi.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. (2024). *Fframwaith Bwyd Da a Symud (2024-2030).* Cyrchwyd Mawrth 2026, o https://goodfoodandmovement.co.uk/cy/

Cyngor Caerdydd. (2026). *Cyflawni Caerdydd - Cryfach, Tecach, Gwyrddach. Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2026-29.* Cyrchwyd Ebrill 13, 2026, o wefan Cyngor Caerdydd: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Y-Cynllun-Corfforaethol/Pages/default.aspx

Cyngor Caerdydd. (2018). *Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant.*Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Cyngor Caerdydd: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Addysg/caerdydd-synddai-blant/Pages/default.aspx

Cyngor Caerdydd. (2019). *Strategaeth Fwyd Caerdydd.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s35885/Cabinet%2021%20November%202019%20Food%20Strategy%20App%201.pdf

Cyngor Caerdydd. (2025a). *Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021 i 2036.* (Cyngor Caerdydd) Cyrchwyd Chwefror 3, 2026, o wefan y Cynllun Datblygu Lleol: https://www.cdllcaerdydd.co.uk/

Cyngor Caerdydd. (2025b). *Papur Technegol Cefndir Rhif 5 Iechyd a Lles.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd (2021-2036):

https://www.cdllcaerdydd.co.uk/wp-content/uploads/RLDP-16-Background-Technical-Paper-5-Health-and-Wellbeing-WELSH.pdf

Cyngor Caerdydd. (d.d. (a)). *Ein gweledigaeth ar gyfer Dinas Carbon Niwtral*. Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Caerdydd Un Blaned: https://www.oneplanetcardiff.co.uk/?cn-reloaded=1

Cyngor Caerdydd. (d.d. (b)). *Strategaeth Fwyd Caerdydd.* Caerdydd: Cyngor Caerdydd.

Partneriaeth Caerdydd. (2023). *Cynllun Lles Caerdydd 2023-2028.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Partneriaeth Caerdydd: https://cardiffpartnership.co.uk/cynllun-lles-lleol-2023-2028/?lang=cy

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. (2022). *Adroddiad Caerdydd Heddiw.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Partneriaeth Caerdydd: https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/2022/04/Cardiff-Today-English-Final.pdf

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. (2025). *Caerdydd yn 2025.* Cyrchwyd Chwefror 3, 2026, o wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd: https://cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/2025/12/Cardiff-in-2025.pdf

Bwyd Caerdydd. (2021). *Bwyd Caerdydd.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://foodcardiff.com/cy/ein-5-nod-ar-gyfer-bwyd/

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. (2023). *Cymru Can. Y strategaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2023-2030.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cymru-can/

Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth. (2007). *Reducing obesity: future choices.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Gov.UK: https://www.gov.uk/government/publications/reducing-obesity-future-choices

Y Sefydliad Tegwch Iechyd. (2011). *The Marmot Review: Implications for Spacial Planning.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan y Sefydliad Tegwch Iechyd: https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/the-marmot-review-implications-for-spacial-planning

John Rahilly, A. W.-L. (2024). *Changes in the number and outcome of takeaway food outlet planning applications in response to adoption of management zones around schools.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1353829224000650

Libuy, N.C. (2023). *Fast food proximity and weight gain in childhood and adolescence: Evidence from Great Britain.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1002/hec.4770

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2024, Ebrill). *Longer-term impacts of the COVID-19 pandemic on the dietary purchasing choices of British households.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o ifs.org.uk: https://ifs.org.uk/publications/longer-term-impacts-covid-19-pandemic-dietary-purchasing-choices-british-households

Bwrdeistref Llundain Barking a Dagenham. (2010). *Saturation Point. Addressing the health impacts of hot food takeaways. Supplementary Planning Documen.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://www.lbbd.gov.uk/sites/default/files/2022-09/Saturation-Point-SPD-Addressing-the-Health-Impacts-of-Hot-Food-Takeaway.pdf

Marmot M, A. J. (2020). *Health Equity in England: The Marmot Review ten years on.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan y Sefydliad Tegwch Iechyd: https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/marmot-review-10-years-on

Marmot M, G. P. (2010). *Fair Society, Healthy Lives (The Marmot Review).* Cyrchwyd Mai 29, 2024, o wefan y Sefydliad Tegwch Iechyd: https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review

Matthew Keeble, T. B. (2019). *How does local government use the planning system to regulate hot food takeaway outlets? A census of current practice in England using document review.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1353829218310414?via%3Dih u b

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. (2022, Awst). *Healthy and safe communities. Guidance on promoting healthy and safe communities.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Gov.UK: https://www.gov.uk/guidance/health-and-wellbeing

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. (2025, Chwefror). *National Planning Policy Framework.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Gov.UK: https://www.gov.uk/government/publications/national-planning-policy-framework--2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2013). *Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.* Cyrchwyd Mai 29, 2024, o wefan legislation.gov.uk: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/7/contents

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2017). *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan legislation.gov.uk: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010, Mehefin). *Cardiovascular disease prevention. Public health guideline [PH25].* Cyrchwyd Mawrth 18, 2021, o https://www.nice.org.uk/guidance/PH25

Nesta. (2024, Mehefin). *How eating out contributes to our diets.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Nesta.org.uk: https://www.nesta.org.uk/report/how-eating-out-contributes-to-our-diets/

Y Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau. (2025). *Wider Determinants of Health: statistical commentary on the location of fast food outlets.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Gov.UK: https://www.gov.uk/government/statistics/wider-determinants-of-health-february-2025-update/wider-determinants-of-health-statistical-commentary-february-2025?utm_source=chatgpt.com

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021). *Sut newidiodd y boblogaeth yng Nghaerdydd: Cyfrifiad 2021.* Cyrchwyd Mai 28, 2024, o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censuspopulationchange/W06000015/

Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2021). *Healthy weight environments: using the planning system. How local authorities' public health and planning teams can promote healthy weight environments.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Gov.UK: https://www.gov.uk/government/publications/healthy-weight-environments-using-the-planning-system

Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2014). *Obesity and the environment: regulating the growth of fast food outlets.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7cb09940f0b6629523b335/Obesity_and_environment_March2014.pdf

Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2017). *Spatial Planning for Health. An evidence resource for planning and designing healthier places.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attach ment_data/ffeil/729727/spatial_planning_for_health.pdf

Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2018, Ionawr). *Healthy High Streets: good place making in an urban setting.* Cyrchwyd Mai 30, 2024, o https://www.gov.uk/government/publications/healthy-high-streets-good-place-making-in-an-urban-setting

Iechyd Cyhoeddus Lloegr. (2018a). *Obesity and the environment. Density of fast food outlets at 31/12/2017.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o https://www.gov.uk/government/publications/fast-food-outlets-density-by-local-authority-in-england

Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2023). *Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus. Canfyddiadau Arolwg Panel Chwefror-Mawrth 2023. Adroddiad 2.*Cyrchwyd Ebrill 2026, o

https://icc.gig.cymru/pwnc/amser-i-siarad-iechyd-cyhoeddus/

Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2025, Ionawr). *Mae atal iechyd gwael yn rhoi gwell gwerth am arian i GIG Cymru ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.* Cyrchwyd Chwefror 3, 2026, o wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/pwnc/angyhraddoldebau-iechyd/

Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2025, Medi). *Offeryn Adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd.* Cyrchwyd Chwefror 17, 2026, o wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://publichealthwales.shinyapps.io/PHOF_Dashboard_Eng/

Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2025a). *Cynllunio Lleoedd Iach: Canllaw i awdurdodau lleol yng Nghymru i ymgorffori iechyd mewn polisi cynllunio lleol.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icccgsib.co.uk/adnoddau/cynllunio-lleoedd-iach-canllaw-i-awdurdodau-lleol-yng-nghymru-i-ymgorffori-iechyd-mewn-polisi-cynllunio-lleol/

Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2025b). *Crynodeb o dueddiadau mewn ffactorau risg ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy.* Cyrchwyd Chwefror 2026, o wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/adroddiad-iechyd-cyhoeddus/crynodeb-o-dueddiadau-mewn-ffactorau-risg-ar-gyfer-clefydau-anhrosglwyddadwy/

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2016). *Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Lles Cynaliadwy ar gyfer Pobl Cymru. Crynodeb Gweithredol.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/adroddiad-iechyd-cyhoeddus/gwneud-gwahaniaeth-buddsoddi-mewn-iechyd-a-llesiant-cynaliadwy-i-bobl-cymru/

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2019). *Gordewdra yng Nghymru.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://phw.nhs.wales/services-and-teams/observatory/data-and-analysis/publication-documents/obesity-2019/obesity-in-wales-report-2018-pdf-english/

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2022). *Disgwyliadau iechyd yng Nghymru gyda bwlch anghydraddoldeb.*
Cyrchwyd Mai 17, 2024, o wefan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/disgwyliadau-iechyd-yng-nghymru-gyda-bwlch-anghydraddoldeb/

Ymchwil y Senedd. (2024). *Y cynnydd mewn gordewdra: rhywbeth i gnoi cil arno.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Senedd Cymru: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/y-cynnydd-mewn-gordewdra-rhywbeth-i-gnoi-cil-arno/

Simmonds, M. L. (2015). *Predicting adult obesity from childhood obesity: a systematic review and meta-analysis. Obesity Reviews, 17: 95–107.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o Obesity Reviews: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/obr.12334

Stats Cymru. (d.d.). *Iechyd cyffredinol ac afiechyd yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2020-21 ymlaen.* Cyrchwyd Mai 17, 2024, o wefan Llywodraeth Cymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-general-health-and-illness/generalhealthillness-by-healthboard

Stats Cymru. (d.d.). *Ffyrdd o fyw oedolion yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2020-21 ymlaen.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-Lifestyles/adultlifestyles-by-healthboard-from-202021

Sustain. (d.d.). *Evidence - the health and wellbeing benefits of food growing*. Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Sustain: https://www.sustainweb.org/growinghealth/evidence/

The Lancet. (2025). *Time to tackle obesogenic environments.* Cyrchwyd Chwefror 2026, o wefan The Lancet Public Health: https://doi.org/10.1016/S2468-2667(25)00049-0

Toner S, Hannah V, Jefferies G, Williams S, Williams M a Morgan C. (2018). *Papur Briffio. Gordewdra, Allfeydd Bwyd Poeth a Chynllunio yng Nghaerdydd*Cyrchwyd Mawrth 3, 2021, o https://icccgsib.co.uk/whiasu/briefing-paper-published-on-obesity-hot-food-outlets-and-planning-in-cardiff/

Turbutt C, R. J. (2018). *The impact of hot food takeaways near schools in the UK on childhood obesity: a systematic review of the evidence.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o'r Journal of Public Health: https://doi.org/10.1093/pubmed/fdy048

Llywodraeth y DU. (1987). *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan legislation.gov.uk: https://www.legislation.gov.uk/uksi/1987/764

Canolfan Ymchwil Deiet a Gweithgaredd UKCRC. (2014, Mehefin). *Evidence Brief 7 – Are takeaways adding pounds? How takeaway food outlets where we live and work may affect our health.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o IMS Epidemiology. Prifysgol Caergrawnt: https://www.epi.ims.cam.ac.uk/resources/policy-resources/evidence-briefs/eb-takeaways-obesity/

Cyngor Bro Morgannwg. (2025). *Siopau Cludfwyd Poeth.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://valeofglamorgan.oc2.uk/docfiles/63/CYM%20BP35%20Hot%20Food%20Takeaways.pdf

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (2014). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Llywodraeth Cymru. (2022). *Amgylchedd bwyd iach.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/amgylchedd-bwyd-iach

Llywodraeth Cymru. (2024). *Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd.* Cyrchwyd Mai 24, 2024, o https://www.llyw.cymru/rheoliadau-asesiadau-or-effaith-ar-iechyd

Llywodraeth Cymru. (2020). *Adeiladu Lleoedd Gwell. Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair. Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adeiladu-lleoedd-gwell-y-system-gynllunio-yn-sicrhau-dyfodol-cydnerth-a-mwy-disglair.pdf

Llywodraeth Cymru. (2021). *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040-0

Llywodraeth Cymru. (2022). *Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html

Llywodraeth Cymru. (2023a). *Strategaeth Gordewdra Pwysau Iach: Cymru Iach.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/strategaeth-gordewdra-pwysau-iach-cymru-iach

Llywodraeth Cymru. (2023b). *Canol trefi: datganiad sefyllfa.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/canol-trefi-datganiad-sefyllfa-html

Llywodraeth Cymru. (2024). *Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 Chwefror 2024.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Llywodraeth Cymru. (2025a). *Cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2025 i 2027.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Llyw.Cymru: https://www.llyw.cymru/pwysau-iach-cymru-iach-cynllun-cyflawni-2025-i-2027-html#183586

Llywodraeth Cymru. (2025b). *Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025.* Cyrchwyd Chwefror 2026, o wefan legislation.gov.uk: https://www.legislation.gov.uk/en/wsi/2025/1215/introduction/made

Llywodraeth Cymru. (2025c). *Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru.* Cyrchwyd Mawrth 2026, o wefan Llyw.Cymru: https://www.llyw.cymru/strategaeth-bwyd-cymunedol

Llywodraeth Cymru. (2025d). *Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2025 - Maes Iechyd*. Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-mallc-2025-adroddiad-canlyniadau-canlyniadaur-maes-iechyd-html#189361

Llywodraeth Cymru. (2025e). *Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2025.* Cyrchwyd Chwefror 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-mallc-2025-adroddiad-canlyniadau-mynegai-cyffredinol-html#189213

Llywodraeth Cymru. (2025f). *Adroddiad canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)*

*2025*
- *Maes yr Amgylchedd Ffisegol.* Cyrchwyd Chwefror 2026, o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-mallc-2025-adroddiad-canlyniadau-canlyniadau-maes-yr-amgylchedd-ffisegol-html

Wijga AH, S. S. (2010). *Comorbidities of obesity in school children: a cross-sectional study in the PIAMA birth cohort.* Cyrchwyd Ebrill 2026, o BMC Public Health. 2010 Apr 9;10:184. doi: 10.1186/1471-2458-10-184.: https://link.springer.com/article/10.1186/1471-2458-10-184

Sefydliad Iechyd y Byd. (d.d.). *Constitution*. Cyrchwyd Ebrill 2026, o wefan Sefydliad Iechyd y Byd: https://www.who.int/about/accountability/governance/constitution